



SYNIADAU DYSGU



THE BIG / Y
SPOTACULAR

BRING & BUY SALE
FFAIR DEWCH
A PHRYNWCH

MAWR WITH / GYDA



GWAITH TÎM RHEOLI DIGWYDDIAD

Pynciau: celf a dylunio, siarad a gwrando
Sgiliau: gwaith tîm, rheoli digwyddiad, marchnata

Defnyddiwch y pecyn canllaw i blant i weithio mewn timau rheoli digwyddiad er mwyn creu digwyddiad dosbarth cyfan.



CYSTADLEUAETH ENTREPRENEUR CODI ARIAN

Pynciau: mathemateg
Sgiliau: gwaith tîm, busnes, meddwl creadigol

Rhannwch y dosbarth i dimau er mwyn dod o hyd i'r syniadau codi arian gorau i BBC Plant Mewn Angen. Efallai bydd angen anogaeth ychwanegol, beth am roi gwobr (neu amser chwarae estynedig neu rywbeth arall fydd yn apelio atyn nhw!)? Gallwch roi benthyciad o £5 yr un, i'w dalu nôl ar ddiwedd y prosiect, i'r grwpiau. Pwy sy'n gallu gwneud yr elw mwyaf allan o'r £5?



AMSERLEN PLANT MEWN ANGEN

Pynciau: hanes, TGCh
Sgiliau: sgiliau ymchwil a chyflwyno

Gall plant weithio'n unigol, mewn paru neu mewn grwpiau bach i ymchwilio a chyflwyno hanes BBC Plant Mewn Angen ar linell amser. Gallan nhw gyflwyno hyn mewn sawl ffordd wahanol, fel Pŵerbwynt, rhaglen deledu, drama ac yn y blaen. Heriwch nhw i fod mor ddyfeisgar a diddordol â phosibl!

DARLLEDIAD ALLANOL BBC PLANT MEWN ANGEN

Pynciau: iaith, TGCh, cyfryngau
Sgiliau: siarad a gwrando, technegol

Dychmygwch fod rhywun wedi gofyn i chi greu un o'r darllediadau allanol ar gyfer y rhaglen ar noson BBC Plant Mewn Angen. Gall y plant gynllunio'r cynnwys a'r digwyddiad yn ogystal â rhoi rolau i gyflwynwyr, y cyhoedd, atebwr, arbenigwr, cystadleuydd a chriw teledu. Gall yr adnodd **Twinkl** hwn eich helpu gyda hyn. Gall y plant hyd yn oed fflmio'r digwyddiad a golygu'r darn o ffilm.

TRACIO'R CYFANSYMAU

Pynciau: mathemateg
Sgiliau: data a llunio graffiau, TGCh

Gwnewch ymchwil ar faint o arian sydd wedi'i godi bob blwyddyn i BBC Plant Mewn Angen o 1980 hyd at y presennol. Wedyn, cyflwynwch yr wybodaeth ar graff a all fod ar bapur neu ar Excel ar y cyfrifiadur. O'r graff gorffenedig, darganfyddwch y blynyddoedd gyda'r incwm mwyaf a lleiaf a chymedr ac amrediad y data. Ydyn ni'n gallu rhagfynegi'r cyfanswm o arian a godir yn 2018 a thu hwnt?



PWY OEDD SYR TERRY WOGAN?

Pynciau: hanes, iaith, cyfryngau
Sgiliau: ymchwilio, cyflwyno

Mae'r plant yn ymchwilio i gyfraniad Syr Terry Wogan i BBC Plant Mewn Angen yn unigol, mewn paru neu mewn grwpiau bach, yn ogystal â darganfod mwy am dyn ei hun. Gall y plant gyflwyno'r canlyniadau mewn llawer o ffyrdd gwahanol gan gynnwys cyflwyniad llafar, Pŵerbwynt neu boster bywgraffyddol/ llinell amser.



Proud Schools Partner
Partner Ysgolion Balch



SYNIADAU DYSGU

THE BIG / Y
SPOTACULAR

BRING & BUY SALE
FFAIR DEWCH
A PHRYNWCH

MAWR WITH / GYDA



RHAGLEN SIART Y 40 UCHAF BBC PLANT MEWN ANGEN

Pynciau: cerddoriaeth, hanes
Sgiliau: ymchwilio, cyflwyno

Ers 1985, mae BBC Plant Mewn Angen wedi rhyddhau sengl elusen swyddogol. Gall y plant ddod o hyd i'r rhestr o ganeuon ac artistiaid yn ogystal â faint o arian a godwyd. Beth am wrando ar y caneuon yn y dosbarth? Gallan nhw astudio themâu, ddewis eu ffefrynnau neu greu hysbyseb ar gyfer cân BBC Plant Mewn Angen 2019, gan ysgrifennu rhestr ofynion yn seiliedig ar eu hymchwil. Gallan nhw gyflwyno canlyniadau eu hymchwil ar raglen radio siart y 40 uchaf, a threfnu'r senglau yn ôl yr arian a godwyd neu safle uchaf y sengl yn y siartiau.

STORI PUDSEY

Pynciau: iaith
Sgiliau: ysgrifennu stori

Gall y plant gynllunio ac ysgrifennu stori gyda Pudsey yn brif gymeriad ynddi. Gallwch osod thema fel gwyliau, antur, oes hanesyddol neu thema codi arian, os ydych yn dymuno. Gall y plant hefyd ysgrifennu'r stori i blant iau neu ddarllen eu straeon gorffenedig i blant y Cyfnod Sylfaen.

CYLCHGRAWN BBC PLANT MEWN ANGEN

Pynciau: iaith, TGCh, cyfryngau

Gall y plant weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau neu fel dosbarth cyfan i greu cylchgrawn BBC Plant Mewn Angen. Gallwch roi tasgau penodol iddynt neu allwch benodi golygydd a'i weithredu fel prosiect ystafell newyddion sy'n gweithio i derfyn amser. Gall y plant werthu'r cylchgrawn gorffenedig i godi arian. Gallwch wneud ymchwil ar gylchgronnau presennol i ddarganfod beth sy'n cael ei gynnwys mewn cylchgrawn i blant yn ogystal â defnyddio syniadau'r plant am yr hyn y maent eisiau gweld/darllen.

ELUSENNAU LLEOL

Pynciau: ABCh, TGCh
Sgiliau: ymchwilio, cyflwyno, meddwl, empathi

Dilynwch y linc ar wefan [BBC Plant Mewn Angen](#) a chliciwch ar eich ardal er mwyn gweld sut mae BBC Plant Mewn Angen yn helpu'r elusennau yn eich ardal chi. Gallwch roi tasgau i grwpiau/parau o blant ddysgu mwy am waith yr elusennau hyn ac adrodd eu darganfyddiadau nôl i'r dosbarth.



Proud Schools Partner
Partner Ysgolion Balch